O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 550 (Cy. 60)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Man i'r Dwyrain o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan i Fan i'r De o Ganarew, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

Gwnaed	*22 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*4 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon a Chefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40 a'r A449) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pwer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Man i'r Dwyrain o Langrwyne i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan i Fan i'r De o Ganarew, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.—Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 4 Mawrth 2013 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau o gefnffyrdd yr A40 a'r A449 yn siroedd Powys a Mynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(1) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 4.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Atal

8. Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Mynwy, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2007**(3)**, wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.